

Dameg y Talentau



Cyflwyniad

Mae Dameg y Talentau a geir yn Mathew 25:14-30 yn ein hatgoffa bod Duw yn hael ac yn rhoi doniau a galluoedd i ni i'w defnyddio er Ei ogoniant.

Prif Bwyntiau:

1. Mae Duw yn rhoi gwahanol fathau o ddoniau i bob un ohonon ni. (1 Corinthiaid 12:18-21).
2. Mae angen inni ddefnyddio'r hyn sydd gennym ar gyfer Duw.
3. Mae'r Beibl yn drysor; dylen ni rannu'r Beibl.

Canllaw Gwers

Siaradwch â'ch plentyn am y doniau neu'r rhoddion mae Duw wedi eu rhoi iddyn nhw: y gallu i ganu, arlunio, coginio, gwranddo, datrys problemau ac yn y blaen. Darllenwch 1 Corinthiaid 12:18-21 gyda'ch plentyn. Rhannwch sut mae Duw wedi rhoi doniau gwahanol i bob un ohonom. Ni ddylem gymharu ein hunain ag eraill ond defnyddio'r doniau mae Duw wedi eu rhoi inni.

Helpwch eich plentyn i adnabod y doniau mae Duw wedi eu rhoi iddyn nhw, rhoddion materol a rhai creadigol.

Cymerwch ddarn o bapur a gofynnwch i'ch plentyn gyfri'r corneli (4). Nawr, gofynnwch iddyn nhw dorri un gornel yn ofalus gyda siswrn a rhoi'r gornel i chi. Rhannwch ein bod weithiau yn ceisio cadw pethau i ni'n hunain, ond pan ydyn ni'n rhoi'r hyn mae Duw wedi ei roi i ni, mae'n rhoi mwy. Gofynnwch iddyn nhw gyfri'r corneli eto. Nawr bydd 5. Ailadroddwch gyda phob un o'r pedair cornel wreiddiol. Bob tro maen nhw'n rhoi un i ffwrdd, byddan nhw'n ennill un arall.


Un rhodd mae Duw wedi ei rhoi ydy'r Beibl. Un ffordd o gadw'r trysor hwn yn ddiogel yw ei guddio yn ein calonnau (darllenwch Salm 119:11). Er hynny, dylen ni wneud mwy na'i guddio. Dylen ni hefyd ei rannu. Rhannwch sut mae gair Duw yn drysor amhrisiadwy y dylen ni fod eisiau dweud wrth eraill amdano. Os ydy'ch plentyn wedi gwneud crefft trysor yr adnod cof gallwch gyfeirio ato neu wneud un arall.

Gofynnwch i'ch plentyn a oes rhywbeth y mae'n ei ddymuno mewn gwirionedd? Tegan arbennig? Beth fyddai'ch plentyn yn ei wneud â'r trysor hwnnw pe bai'n ei dderbyn? A fydden nhw'n palu twll, ei guddio a dweud wrth neb amdano, neu a fydden nhw'n ei ddefnyddio ac yn dweud wrth bawb amdano a'i gadw'n ddiogel?

Mae Duw wedi rhoi talent i bob un ohonon ni. Rhannwch mai darn arian oedd talent yn y Beibl. Tua 33c9 mae'n debyg. Ceisiwch bwysu a mesur gwrthrychau ar glorian eich ystafell ymolchi sy'n cyfateb i bwysau talent. Rhannwch sut roedd hyd yn oed un darn o aur neu arian yn werthfawr iawn. Ddylen ni byth edrych i lawr ar yr anrhegion mae Duw yn eu rhoi i ni.

Beth yw'r ffyrdd y gallwn ni ddefnyddio ein doniau i anrhydeddu Duw? Os ydyn ni'n canu, gallwn anrhydeddu Duw drwy ganu caneuon sy'n ei ganmol. Os ydyn ni'n tynnu lluniau, gallwn ni dynnu lluniau o straeon y Beibl. Os ydyn ni'n coginio, fe allwn ni wneud bwyd i'r rhai sy'n sâl. Yn union fel y ddau was da, mae angen inni ddefnyddio ein doniau'n ddoeth.

Diolchwch i Dduw am drysor Ei Fab. Gofynnwch iddo eich helpu chi i ddefnyddio'ch doniau i rannu'r trysor hwn ag eraill.



Pan ddychwelodd y meistr, roedd yn hapus iawn gyda'r ddau was cyntaf.

Rhoddodd hyd yn oed fwy o bethau iddyn nhw.

Ond roedd yn ddiog gyda'r trydydd dyn, oherwydd ei fod yn ddiog ac yn gwneud dim.

Gadawodd y trydydd gwas heb ddim.




Dameg y Talentau

Un diwrnod, dywedodd Iesu stori i ddysgu pobl sut i ddefnyddio 'u doniau.

Roedd dyn yn mynd ar daith hir.

Galwodd ei weision i ofyn iddyn nhw ofalu am ei bethau tra roedd i ffwrdd.



Rhoddodd bum talent o arian i'r gwas cyntaf.

Rhoddodd ddwy dalent i'r ail was.

Rhoddodd un dalent i'r trydydd gwas.

Rhoddwyd rhywbeth gwerthfawr i bob gwas.



Defnyddiodd y gwas cyntaf gafodd bum talent ei arian a chael pump arall.

Defnyddiodd yr ail was ei ddwy dalent a gwnaeth ddwy arall.

Cloddiodd y trydydd gwas dwl a chuddio'r dalent. Roedd ganddo ofn ei cholli.

Gêmau a Gweithgareddau

Sioe dalent

Mae sawl ffordd o baratoi sioe dalent yn y cartref neu'r eglwys. Mae bob amser yn well rhoi rhywfaint o rybudd. Er enghraifft, yn yr eglwys gallech sôn am y peth yr wythnos flaenorol. Gartref, soniwch yn y bore ar gyfer y noson honno. Crëwch lwyfan a pharatoi byrbrydau. Does dim angen i'r doniau fod yn berfformiadau. Gallai plant baratoi darnau o gelf i ddod â nhw gyda nhw.



Cuddio'r trysor


Dewiswch wrthrych i fod yn drysor. Cymerwch dro i'w guddio ac i geisio dod o hyd iddo.

Os oes gennych bridd neu dywod ar gael, gallech hefyd gymryd tro i gladdu'r trysor cyn i'r lleill geisio dod o hyd iddo..







Llun Hud Rholiau Cegin

Efallai eich bod chi wedi gweld y rhain ar-lein. Os na, bydd y fideo ar-lein yn esbonio'n gliriach. Bydd angen peniau ffelt, papur cegin, plât plaen, ac ychydig o ddŵr. Plygwch y papur yn ei hanner. Ar du mewn y plyg tynnwch lun neu neges. Plygwch i guddio. Pan fydd eich plentyn yn rhoi'r papur yn y dŵr, bydd yn datgelu'r neges. Rhannwch sut nad yw Duw yn dymuno inni guddio eich doniau..



Dwbl y siapiau

Rhowch y nifer cywir o dalentau
i bob gwas







5



2



1




Cylchwch y pethau rydych chi'n eu mwynhau



Sut gelli di ddefnyddio dy roddion
i wasanaethu Duw ac eraill?

Trasiwch a lliwio'r darnau arian



Faint o ddarnau arian sydd yn y bag?

Bag y talentau




Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Tudalennau templed, Pensiliau lliwio, Siswrn, Glud a Rhuban

Gweithgaredd

Trowch y grefft hon yn weithgaredd drwy wobrwyo'ch plentyn â'r darn arian am ddefnyddio ei ddawn gydol yr wythnos. Er enghraifft: Os ydyn nhw'n gwneud rhywfaint o arddio, rhwch y darn arian garddio iddyn nhw. Os ydyn nhw'n coginio rhywbeth, gwobrwych nhw gyda'r darn arian coginio.

Beth i'w wneud:




Lliwiwch y dudalen dempled.



Torrwch o gwmpas y bag a'r darnau arian. Gludwch ar flaen bag.











Clymwch ruban arno. Casglwch ddarnau arian.







**Defnyddiwch ba
ddawn bynnag rydych
chi wedi'i derbyn i
wasanaethu eraill**

1 Pedr 4:10











Amser Addoli

Argymhell caneuon addoli. Heb ei gynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Paradwy'r Talentau - Stori o'r Beibl i blant

<https://youtu.be/MxMNMRv0NFw>

I Give You My Heart

<https://youtu.be/AICgDI4WINY>

This Little Light Of Mine

<https://youtu.be/cKkblZtqhyQ>

Made For This

<https://youtu.be/jVKu0i3YEAM>



Gweddï

Diolcha i Dduw am y doniau mae wedi eu rhoi i ti.

Gofynna iddo ef dy helpu i'w defnyddio i'w wasanaethu Ef ac eraill.

Wythnos Nesaf

Dameg y Wledd Fawr

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch i dderbyn gwerau yn y dyfodol drwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

